Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Mawredd Moresg

## Amser ar gyfer y gweithgaredd **3 awr +**

## Lleoliad

**Yn yr awyr agored neu dan do**

## Cyd-destun

Mae'r gweithgareddau hyn yn galluogi dysgwyr i ddeall sut mae systemau gwreiddiau moresg yn hybu datblygiad twyni tywod a sut mae'r rhywogaeth wedi addasu i amodau cras systemau twyni tywod.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

## Cefndir

Mae moresg yn tyfu'n rhwydd ar dwyni tywod ar hyd a lled y DU. Mae ei systemau o wreiddiau yn helpu i sefydlogi tywod, ac mae hynny'n caniatáu i egin-dwyni a chynefinoedd twyni lled-sefydlog ffurfio a hefyd yn eu helpu i wrthsefyll erydiad gan y gwynt a'r glaw. Felly mae'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o sefydlogi twyni.

I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein Nodyn gwybodaeth – Mawredd moresg.

### Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae cwblhau'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfleoedd i gyflawni'r rhannau canlynol o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

**Data a meddwl cyfrifiadurol**

- Datrys problemau a modelu
- Llythrennedd gwybodaeth a data

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- deall pwysigrwydd moresg
- deall sut mae'r rhywogaeth wedi addasu i amodau penodol
- nodi pam fod rhywogaethau'n byw mewn lleoliadau penodol yn y system twyni tywod

## Adnoddau ac offer

- Nodyn gwybodaeth – Mawredd Moresg
- Cynllun gweithgaredd – Sut mae twyni tywod yn ffurfio?
- Cardiau adnoddau (set A) – Rhywogaethau rhagorol y twyni tywod

## Beth i'w wneud

1. Gofynnwch i'ch dysgwyr ddarllen drwy'r **Nodyn gwybodaeth - Moresg** a gwylio'r ddau glip ffilm byr sy'n cael eu crybwyll fel bod eich dysgwyr yn deall sut mae systemau gwreiddiau moresg yn helpu datblygiad twyni tywod a sut mae'r rhywogaeth wedi addasu i amodau cras systemau twyni tywod. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu mewn arddull rysáit sut i wneud egin-dwyn e.e. Cymerwch 1 cwpanaid o foresg ac ychwanegwch…
2. Trafodwch gyda'ch dysgwyr fod system twyni tywod yn amgylchedd deinamig a newidiol sy'n cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd. I ni gall twyni tywod ymddangos fel llefydd garw a didostur ond i'r rhai sy'n byw yno, maen nhw'n gartref. Maen nhw wedi addasu (wedi newid i weddu) er mwyn gallu byw yn yr amodau hynny. Pa nodweddion sydd eu hangen ar blanhigion, adar a ffyngau er mwyn gallu byw mewn amgylchedd twyni tywod?
3. Defnyddiwch y **Cardiau adnoddau (set A) – Rhywogaethau rhagorol y twyni tywod** i nodi'r rhywogaethau sy'n byw ar y draethlin, mewn egin-dwyni, twyni lled-sefydlog neu dwyni symudol. Gwnewch ffeiliau ffeithiau ar gyfer pob un a chynnwys ffotograff neu lun wedi'i labelu. Esboniwch sut mae pob rhywogaeth wedi addasu i'r amodau y mae'n byw ynddynt.
4. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod pa un sy'n well, moresg neu strwythur o waith dyn fel ffens dywod gyda rhwyll fân i ddal tywod? Dechreuwch drwy ofyn i'r dysgwyr nodi manteision ac anfanteision y ddau.
5. Gallech hefyd annog y dysgwyr i wneud eu hymchwil eu hunain ar foresg.
6. Gofynnwch i'r dysgwyr wneud diagram o foresg ynghyd â'i system wreiddiau. **Defnyddiwch y Nodyn gwybodaeth - Mawredd Moresg** i wneud nodiadau o amgylch y diagram yn dangos ei nodweddion a sut mae wedi addasu i'r amodau y mae'n byw ynddynt.
7. Ymchwiliwch – Sut mae moresg yn helpu i ffurfio twyni? Beth sy'n unigryw am strwythur moresg? Sut mae moresg yn goroesi pan fydd storm yn ei gladdu mewn tywod? Cwblhewch y gweithgareddau ar y **Cynllun gweithgaredd – Sut mae twyni tywod yn ffurfio?** os nad yw'r rhain wedi'u gwneud eisoes.

## Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Sut mae moresg wedi addasu?
- Sut mae moresg yn cael ei ddefnyddio?
- Pam y mae moresg mor bwysig?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion neu alluoedd

### Mwy o gymorth

- Rhowch ddiagram o ddarn o foresg i'r dysgwyr gyda'r labeli a gofynnwch iddyn nhw roi'r labeli yn y safle cywir.

### Mwy o her

- Ymchwiliwch i beth sydd y tu mewn i ddeilen moresg a gwnewch ddiagram ohono gyda nodiadau.
- Gwnewch fraslun o foresg gyda nodiadau pan fyddwch allan yn y maes.

## Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Lluniwch Nodyn Gwybodaeth tebyg ar gyfer clymwellt (lyme-grass)
- Ymchwiliwch i un planhigyn o bob cam o system twyni tywod, gwnewch ddiagram ohono gyda labeli yn egluro pa addasiadau sydd ganddo. Sut mae'r rhywogaeth yn newid rhwng yr egin-dwyni a'r twyni aeddfed?

---

## Gwybodaeth Ychwanegol

Cynllun gweithgaredd – Twyni tywod dros amser – Cwningar Niwbwrch

Cardiau adnoddau – Twyni tywod dros amser – Cwningar Niwbwrch

Cardiau adnoddau (set A) – Rhywogaethau rhagorol y twyni tywod

Nodyn gwybodaeth – Twyni tywod arfordirol yng Nghymru

Nodyn gwybodaeth - Moresg

Cynllun gweithgaredd - Sut mae twyni tywod yn ffurfio

Cardiau adnoddau – Sut mae twyni tywod yn ffurfio

Cardiau adnoddau - Tag y twyni!

Fideo - Thatching with Marram Grass: Traditional Skills in Scotland YouTube

Fideo - A-Z of Dynamic Dunescapes and Sand Dune Conservation YouTube

Adnoddau addysg a dysgu – Twyni ar Symud - Crëwyd yr adnodd hwn gan brosiect Twyni ar Symud ac fe'i hariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE. Ewch i www.dynamicdunescapes.co.uk i gael rhagor o wybodaeth.

**Dysgu yn ein hamgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000**

SoLIFE: LIFE 17 NAT/UK/000023
Mae prosiect Twyni Byw-Sands of LIFE wedi cael cyllid gan Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

NATURA 2000

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government